



## Cynorthwydd Digidol

Rydym yn chwilio am unigolyn i weithio'n rhan amser ar draws cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Halen Môn - yn cyrchu, creu, ac amserlennu cynnwys yn ogystal â chysylltu â'n cynulleidfa ar-lein i'n helpu i godi ymwybyddiaeth brand a meithrin presenoldeb digidol cryf.

Gweithiwr marchnata digidol proffesiynol, gyda dawn i adrodd straeon a diddordeb brwd mewn bwyd tymhorol a chynaliadwyedd.

Bydd ein hymgeisydd delfrydol yn weithiwr proffesiynol profiadol gyda sgiliau ysgrifennu cryf a llygad craff am ddylunio ac estheteg. Dylech fod yn frwdfrydig ac awyddus ac yn gallu i roi sylw arbennig i fanylion. Mae hon yn rôl weithredol, gyda lle i ddatblygu.

## Swydd Ddisgrifiad

- Gweithio gyda Chyfarwyddwr y Brand i greu a chyflwyno calendr golygyddol o gynnwys cyfryngau digidol ar draws ein cyfrifon ar-lein - Twitter, Instagram, Facebook
- Ymateb i negeseuon a sylwadau wrth ddarparu cyfleoedd diddorol i'r tîm Gwerthu a Marchnata.
- Ein helpu ni i feddwl am syniadau creadigol ar gyfer marchnata cynnwys a byddwch yn hyderus wrth reoli'r gwaith hwnnw un ai'n fewnol neu, yn achlysurol, wrth ddefnyddio pobl allanol fel aelodau tîm allanol, e.e dylunwyr, ysgrifenwyr ryseitiai, ffotograffwyr, cyfieithwyr.
- Datblygu a chynnal ymwybyddiaeth wybodus o bynciau perthnasol er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol
- Gweithio gyda brandiau a dylanwadwyr perthnasol ar bartneriaethau a chystadlaethau gyda nodau clir a chanlyniadau mesuradwy
- O bryd i'w gilydd, gweithio i hysbysebu â thâl ar gyfer demograffig penodol gyda nodau penodol mewn golwg
- Llunio a chynnal strategaethau elw ar fuddsoddiad clir i fesur twf cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a faint o bobl sy'n eu darllen.

## Oriau

16 awr yr wythnos gyda chyfleoedd i ddatblygu, a'r opsiwn i weithio o bell ar ôl cyfnod prawf.

## Gofynion y swydd

- Y gallu i ddilyn canllawiau brand - o ran Tôn y Llais ac Estheteg Weledol
- Mae'r gallu i dynnu delweddu o ansawdd uchel gan ddefnyddio ffôn symudol yn ddymunol

- Profiad o reoli a chydlynu prosiect
- Y gallu i ganolbwyntio ar broses gyda sgiliau trefnu a rheoli amser da.
- Y gallu i weithio'n broffesiynol ac yn hyblyg
- Sylw rhagorol i fanylion - mae'r rôl hon yn gofyn am gywirdeb
- Y gallu i weithio'n annibynnol heb fawr o oruchwyliaeth a'r gallu i ymdopi â nifer o flaenoriaethau cystadleuol a llwyth gwaith amrywiol
- Profiad a/neu gymhwyster marchnata digidol yn ddymunol
- Siaradwr Cymraeg yn ddymunol